# Digwyddiadau Cymru:
Strategaeth Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru 2010 – 2020

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk





Cwpan Ryder yn y Celtic Manor, Casnewydd

## Y Weledigaeth ar gyfer Cymru yn 2020

Cymru'n cael ei chydnabod yn gyrchfan gyson wych ar gyfer digwyddiadau mawr.

## Datganiad Cenhadaeth

Datblygu portffolio cytbwys a chynaliadwy o ddigwyddiadau mawr sy'n cryfhau enw da Cymru'n rhyngwladol ac sydd er lles ei phobl a'i chymunedau.

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5718 7
WAG10-10116
G/MH/3821/09-10
Medi
Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2010

# Rhagair y Gweinidogion


Digwyddiadau yw cerrig milltir ein bywydau. Dyma'r achlysuron sy'n diffinio pwy ydyn ni ac sy'n serio'u hunain yn ein cof. Mae nodwedd debyg yn perthyn i fywyd y gymuned a'r genedl. Mae digwyddiadau yn ein tynnu ni oll ynghyd. Mae gan ddigwyddiadau mawr y grym, anesboniadwy bron, i saernïo ein hunaniaeth fel unigolion a chymunedau. Dyma ddolen rhyngom a'r gorffennol, a gobaith i'r dyfodol. Dyma ddrych inni ddysgu amdanom ni ein hunain fel cenedl. Dyma ffenestr sy'n rhoi cyfle i genhedloedd a phobloedd eraill sy'n byw yn yr ynysoedd hyn, ac ym mhedwar ban y byd, ein gweld, ein hadnabod a dod i gysylltiad â ni.

Aeth degawd a rhagor heibio ers i bwerau gael eu datganoli i Gymru, ac mae creu cenedl yn broses yn hytrach nag yn ddigwyddiad. Ond mae digwyddiadau yn goleuo'r daith honno ac yn ei hadlewyrchu. Ar eu gorau, maen nhw'n gwneud mwy na chynnig ffon i fesur cynnydd. Maen nhw'n cyflymu'r broses honno, yn dangos yr hyn sydd o fewn ein gallu, yn herio ac yn newid agweddau, yn creu posibiliadau newydd. I rai, mae rhyw rin eironig yn y ffaith mai gêm o griced a ddangosodd sut y gall digwyddiadau olygu cymaint mwy na'r ornest ar faes y chwarae. Gêm Brawf y Lludw oedd honno, lle'r estynnodd Cymru groeso i Loegr a'r byd criced ar gyfer cynnal atyniad mwyaf y gamp. Llwyddodd Cymru, ar yr eiliad dyngedfennol, i daro clec o ergyd a hoeliodd sylw pawb. Roedd seren newydd ar y llwyfan rhyngwladol.

Wrth i'r genedl groesawu Cwpan Ryder am y tro cyntaf rydym yn gwneud hynny â hyder o'r newydd – hyder sy'n tarddu o'n hanes diweddar iawn. Rydym yn ymwybodol y bydd y byd yn ein gwylio ac y bydd degau o filoedd o bobl yn tyrru dros Bont Hafren i ymweld â ni. Rydyn ni'n llawn sylweddoli'r her anferthol sydd ynghlwm wrth gynnal digwyddiadau o'r fath, a'r ymdrech sydd ei hangen i'w goresgyn. Ond mae Cymru'n gwbl ffyddiog yn ei gallu.

Yn y cyfnod dyrys hwn, mae'r cyfrifoldeb yn drwm ar ysgwyddau'r Llywodraeth i egluro'i blaenoriaethau strategol. Rhaid iddi fynd ati'n ddeallus, yn rhagweithiol ac yn gost-effeithiol gyda'i holl bartneriaid yng Nghymru a'r tu hwnt i sicrhau'r amodau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol gorau posib i'r genedl. Rhaid inni amlygu ein hunain mewn ffordd sy'n golygu y gallwn ddal ati i serennu ar lwyfan y byd. Dyna nod y Strategaeth Digwyddiadau Mawr. Er nad cynnal digwyddiadau yn eu rhinwedd eu hunain yw pen draw ein huchelgais, gall digwyddiadau gael effaith fawr ar ffyniant a lles ein cenedl, yn eu holl agweddau. Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru rydym yn ei chymeradwyo ichi ac yn ei chefnogi i'r carn.






**Ieuan Wyn Jones**

Y Dirprwy Brif Weinidog
a'r Gweinidog dros yr
Economi a Thrafnidiaeth





**Alun Ffred Jones**

Y Gweinidog
dros Dreftadaeth

# 1. Cyflwyniad



Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd

1.1 Mae Cwpan Rygbi'r Byd 1999, chwech o gemau terfynol Cwpan yr FA, Prawf y Lludw 2009, Cwpan Ryder 2010, Gŵyl y Gelli ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen wedi rhoi enw da cynyddol i Gymru fel cyrchfan o safon ryngwladol ar gyfer digwyddiadau mawr. Nid hap a damwain yw hi fod hyn wedi digwydd yn ystod degawd hanesyddol lle mae Cymru wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei materion datganoledig ei hun a lle mae llywodraeth yng Nghymru wedi cael gallu newydd i ymateb yn effeithiol i gyfleoedd.

1.2 Mae digwyddiadau rhyngwladol mawr yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn gweld Cymru a'r byd, ac ar y ffordd y mae'r byd yn gweld Cymru. Mae meithrin enw da a brand neu ddelwedd gadarnhaol i Gymru yn her bwysig sydd wedi'i chydnabod gan Lywodraeth y Cynulliad. Bydd strategaeth lwyddiannus ar gyfer creu portffolio cynaliadwy a chytbwys o ddigwyddiadau mawr yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r nod hwn ac yn sicrhau cyfres o fanteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a phellgyrhaeddol i Gymru[1].

1.3 Mae gennym yn awr seiliau cadarn i gryfhau safle Cymru mewn marchnad fyd-eang sy'n hynod gystadleuol. Bydd Cwpan Ryder 2010 yn dod â Chymru i sylw'r byd mewn modd na welwyd ei debyg erioed, a bydd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 yn cael effaith debyg o safbwynt y Deyrnas Unedig. Bydd cyfleoedd newydd yn cael eu creu yn sgil hyn. Mae'r strategaeth integredig hon, sy'n cyd-fynd ag agenda *Cymru'n Un* Llywodraeth y Cynulliad, yn datgan sut y byddwn yn gweithredu'n fwy rhagweithiol i gyflawni ein potensial. Mae'n disgrifio sut y byddwn yn arwain dull gweithredu sy'n fwy cydlynol, drwy roi fframwaith strategol cadarn ar waith a fydd yn harneisio ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd yr holl unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n ymwneud â digwyddiadau mawr ar draws y wlad.

1.4 Y prif nod yw creu portffolio systematig a chynaliadwy o ddigwyddiadau gyda'r gorau yn y byd a fydd yn sicrhau etifeddiaeth economaidd, gymdeithasol a diwylliannol hirdymor i bobl Cymru, yn ogystal â sicrhau'r gwerth gorau am y bunt Gymreig. Rydym eisoes wedi cymryd cam sylweddol ymlaen drwy sefydlu Uned Digwyddiadau Mawr o fewn Llywodraeth y Cynulliad i arwain yr ymgyrch i gael dull gweithredu sy'n fwy cydlynol a strategol yng Nghymru.

1.5 Wrth reswm, mae'r dirwasgiad byd-eang yn her sylweddol inni o ran cyflawni ein gweledigaeth. Er bod gofyn inni fod yn uchelgeisiol, rhaid inni hefyd fod yn realistig o ran yr hyn y gellir ei gyflawni, yn arbennig wrth ystyried ceisiadau posibl ar gyfer Mega-ddigwyddiadau fel y cânt eu diffinio yn yr adran nesaf. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, lle cedwir llygad fanwl ar gyllidebau, mae'n bwysig bod y strategaeth hon yn gosod fframwaith a fydd yn ein galluogi i weithio'n ddoethach er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn digwyddiadau mawr yn cael eu targedu'n effeithiol i helpu i wella ffyniant a lles pobl Cymru yn y tymor hir.

1 Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd (Gorffennaf 2010), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# 2. Beth yw digwyddiad mawr?



Yr Eisteddfod Genedlaethol

2.1 Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch diben a chwmpas y strategaeth hon. Ei nod yw datblygu a manteisio ar bortffolio o ddigwyddiadau a gynllunnir i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i Gymru yng nghyswllt gwella lles ei phobl. Dylai'r digwyddiadau a gefnogir fod yn gydnaws â natur ein cymunedau, ac yn gyson ag anghenion a dyheadau pobl Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Bydd hyn yn golygu cymhathu'r gorau o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n traddodiadau mewn modd bywiog a chyfoes, ond gan gydbwyso hynny â'r angen i gefnogi'r arloesol, yr arbrofol a'r gwahanol.

2.2 Rydym yn cydnabod bod cannoedd o ddigwyddiadau a gwyliau bach sy'n werthfawr iawn eu cyfraniad i gymunedau ac economïau lleol o Fôn i Fynwy[2]. Fod bynnag nid ar y rheini y mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio, gan nad ydynt yn debygol o gael effaith economaidd a chymdeithasol-ddiwylliannol ehangach ar lefel Cymru gyfan.

2.3 Yn yr un modd, mae cynadleddau, arddangosfeydd a ffeiriau masnach hefyd yn werthfawr, ond maent y tu allan i gwmpas y strategaeth hon. At ei gilydd, nid yw'r digwyddiadau masnachol hyn yn debygol o wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach y strategaeth hon.

2.4 Ceir pedwar categori o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cefnogi drwy'r strategaeth hon.

- **Digwyddiadau Mawr** – digwyddiadau peripatetig sy'n cael eu diffinio yn ôl eu maint a'u hapêl o ran denu a dylanwadu ar gynulleidfaoedd rhyngwladol mawr a sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau, yn ogystal â chael effaith economaidd a dod â nifer sylweddol o ymwelwyr i'r gyrchfan. Mae modd iddynt gael eu gwylio gan gynulleidfaoedd teledu ledled y byd a denu noddwyr rhyngwladol sylweddol. Gallant gael effaith gadarnhaol o ran dylanwadu ar garfanau penodol o'r farchnad a newid agweddau ac ymddygiad. Nid Cymru sy'n 'berchen' ar y digwyddiadau rhyngwladol hyn a byddai'n rhaid iddi gael ei dewis fel lleoliad yn erbyn cystadleuaeth ryngwladol. Rhai enghreifftiau o'r math yma o ddigwyddiad yw Gêm Brawf y Lludw, Gêm Derfynol Cwpan Heineken a Gwobrau MOBO (Cerddoriaeth o Darddiad Du).

- **Digwyddiadau Unigryw** – gall y digwyddiadau hyn hefyd fod â dimensiwn rhyngwladol cryf, ond yn wahanol i'r categori digwyddiadau mawr a ddisgrifir uchod, caiff y rhain eu cynnal dro ar ôl tro. Maent naill ai'n unigryw i Gymru neu'n neilltuol Gymreig o ran eu natur, ac maent yn adlewyrchu ein diwylliant, ein traddodiadau a'n gwerthoedd. Maent yn gwella delwedd a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac yn rhoi profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae Digwyddiadau Unigryw llwyddiannus yn gallu parhau i ysbrydoli ac ailddenu eu cynulleidfaoedd. Enghreifftiau fyddai digwyddiadau sydd wedi ennill eu plwyf megis Gŵyl y Gelli, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen a Sioe Frenhinol Cymru, a digwyddiadau mwy newydd fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Wakestock.

---

2 Making Fun (2009): Sefydliad Mentrau Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru



Gêm Brawf y Lludw yn Stadiwm SWALEC, Caerdydd

- **Mega-ddigwyddiadau** – fel digwyddiadau mawr, mae'r rhain yn ddigwyddiadau peripatetig ac iddynt apêl fyd-eang. Maent yn nodedig gan eu bod fel arfer yn cael eu cynnal yn dilyn prosiectau cyfalaf mawr, ac yn aml yn gofyn am adeiladu lleoliadau a seilwaith newydd i'w cefnogi. Mae angen ymdrech sylweddol wrth roi cais at ei gilydd, a lefel uchel o adnoddau a chefnogaeth gan y llywodraeth ar bob cam – o'r cynnig cychwynnol i gynnal y digwyddiad. Fel arfer, mae hyn yn golygu creu corff ar wahân, gyda chyllideb wedi'i chlustnodi'n benodol, i reoli'r broses o'i dechrau i'w diwedd. Ymhlith yr enghreifftiau mae Gemau'r Gymanwlad a Chwpan Ryder.

- **Digwyddiadau Twf** – digwyddiadau llai yw'r rhain – rhai newydd yn aml – gydag ôl troed a ffocws sy'n rhanbarthol, yn lleol neu'n seiliedig ar sector penodol ac sy'n dangos yr uchelgais neu'r potensial i esblygu a thyfu a dod yn Ddigwyddiad Mawr neu'n Ddigwyddiad Unigryw yng Nghymru. Gall y digwyddiadau hyn hefyd weithredu fel cerrig milltir o ran hybu capasiti, profiad a hygrededd Cymru fel cyrchfan, a gallant fod yn bwysig o ran braenaru'r tir ar gyfer cynnal digwyddiadau mawr wedi'u targedu. Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer eu cefnogi. Elfen bwysig o'r 'gwerth a ychwanegir drwy fuddsoddi' yw creu a meithrin digwyddiadau cynhenid, a thrwy hynny gefnogi ymdrechion i ddatblygu diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru. Mae Hanner Marathon Caerdydd yn enghraifft o'r math hwn o ddigwyddiad.

2.5 Ceir disgrifiad manylach o rôl benodol yr Uned Digwyddiadau Mawr o ran cefnogi'r digwyddiadau hyn yn nes ymlaen yn adran 6, ond mae'n amlwg bod rhaid i'r Uned weithredu fel noddwr strategol o fewn cyfnod penodedig, yn hytrach nag fel corff neu noddwr sy'n dyrannu grantiau cylchol. Ni all y gefnogaeth ariannol y mae'n ei darparu gymryd lle arian craidd a roddir gan gyrff cyhoeddus eraill megis Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

2.6 Bydd unrhyw gymorth ariannol a roddir gan yr Uned yn cael ei gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion penodol yn ymwneud â digwyddiadau mawr a amlinellir yn y strategaeth hon.



# 3. Pam buddsoddi mewn digwyddiadau mawr?




Rownd Derfynol Cwpan Heineken, Caerdydd

3.1 Mae digwyddiadau mawr yn dal dychymyg pobl ledled y byd, ac mae ymchwil yn dangos eu bod yn cynnig manteision economaidd sylweddol ac yn gwella enw da a phroffil rhyngwladol y wlad a'r lleoliad lle cânt eu cynnal[3]. Sylweddolir yn fwyfwy hefyd y gall digwyddiadau mawr ysbrydoli a chydio yn nychymyg amrywiaeth helaeth o unigolion a chymunedau, a thrwy hynny hybu lles cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, gan gynnwys gwella'r ymdeimlad o le.

3.2 Gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad yw Cymru ffyniannus a hyderus sy'n edrych allan ar y byd. Mae ein rhaglen ar gyfer gwireddu'r weledigaeth wedi'i chynnwys yn *Cymru'n Un*. Gall digwyddiadau mawr wneud cyfraniad cadarnhaol iawn at wireddu'r weledigaeth honno, ac esgor ar bob math o fanteision mewn nifer o feysydd polisi.

---

3 Millennium Stadium, Cardiff and Wales: The Economic Impact (Tachwedd 2007). Econactive Ltd a Strategic Marketing

- **Dyfodol Iach** – gall digwyddiadau mawr gynnig llwyfan ar gyfer cyfathrebu negeseuon cadarnhaol a rhoi profiadau go iawn i bobl er mwyn annog ffordd iach o fyw. Er enghraifft, gall digwyddiadau chwaraeon y mae llu o bobl yn cymryd rhan ynddynt helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd.
- **Cymdeithas Ffyniannus** – gall digwyddiadau mawr fod yn sbardun ar gyfer mentrau newydd a thwf busnes, gan arwain at greu swyddi hirdymor o ansawdd uchel. Gallant helpu hefyd i hyrwyddo a thynnu sylw at dwristiaeth mewn marchnadoedd allweddol, a chefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig.
- **Cymunedau Byw** – mae digwyddiadau mawr llwyddiannus yn gallu creu dolenni cyswllt â chymunedau drwy gyfleoedd gwirfoddoli'n lleol, annog pobl i gymryd rhan a chynnig profiad o wylio digwyddiadau'n fyw, yn ogystal â thrwy wahanol gyfryngau.
- **Dysgu i Fyw** – mae digwyddiadau mawr yn ddiwydiant cyffrous sy'n gofyn am ystod o sgiliau – o reoli prosiectau a chyllid, i farchnata, y cyfryngau a chyfathrebu. Gall digwyddiadau gyfrannu at greu'r amgylchiadau cywir i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi fodern, greadigol.
- **Cymdeithas Deg a Chyfiawn** – gall digwyddiadau mawr llwyddiannus helpu pobl a chymunedau i gyflawni eu llawn botensial, gan gynnwys rhaglenni allgymorth sy'n targedu grwpiau lleiafrifol a rhai anodd eu cyrraedd.
- **Amgylchedd Cynaliadwy** – gall digwyddiadau mawr sy'n mynd ati'n fwriadol i reoli'r digwyddiad yn gynaliadwy godi ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd a thynnu sylw at arferion da mewn meysydd megis defnyddio ynni adnewyddadwy, trafnidiaeth integredig, ailgylchu gwastraff a chaffael nwyddau a gwasanaethau lleol.
- **Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol** – mae digwyddiadau mawr yn tynnu sylw at hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth unigryw Cymru; maent yn ysgogi arloesedd a mynegiant diwylliannol ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n prif artistiaid ac athletwyr gael arddangos eu talentau ar lwyfan y byd.



Gŵyl Ryngwladol Adrodd Straeon yng Nghastell Sain Dunwyd, Bro Morgannwg

# 4. Egwyddorion arweiniol



Gŵyl Wakestock yn Abersoch, Gwynedd / © Sim Bradley

4.1 Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion sylfaenol sy'n nodi y bydd y portffolio o ddigwyddiadau mawr a gefnogir gan yr Uned Digwyddiadau Mawr, fel cyfanwaith:

- yn dod â manteision clir a mesuradwy i Gymru yn unol â *Cymru'n Un* a strategaethau a blaenoriaethau cysylltiedig Llywodraeth y Cynulliad;
- yn dangos bod y buddsoddiad gan y sector cyhoeddus yn esgor ar enillion amlwg;
- yn gwella amlygrwydd ac enw da Cymru yn y byd;
- yn creu ymdeimlad cryf o le, sy'n dathlu amrywiaeth a hynodrwydd diwylliant Cymru ac sy'n gwella proffil a defnydd yr iaith Gymraeg oddi fewn ac oddi allan i Gymru;
- yn cefnogi datblygu diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru;
- yn annog rhannu cyfleoedd yn deg ac yn gyfartal ledled Cymru, a rhannu digwyddiadau'n gytbwys ar draws y calendr;
- yn taro cydbwysedd rhwng denu digwyddiadau rhyngwladol untro, meithrin a datblygu digwyddiadau sy'n bodoli'n barod, a hybu a chreu digwyddiadau newydd;
- yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau Cymru, gan gynnwys adeiladau a'n hamgylchedd naturiol eithriadol;
- yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gadarn, yn unol â Safon Brydeinig 8901: Systemau Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Digwyddiadau, gan gynnwys gweithredu ar sail cynllun busnes cadarn gyda strwythurau llywodraethu a rheoli cryf;
- yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cynghreiriau strategol newydd, partneriaethau newydd a dulliau newydd o gydweithio, ac yn sicrhau bod yr agenda digwyddiadau mawr yn cael ei hystyried yn llawn mewn rhaglenni gwariant cyfalaf, lle bo hynny'n briodol.

4.2 Bydd yr egwyddorion arweiniol hyn yn sail i'r fframwaith asesu clir a thryloyw a ddefnyddir i ddewis digwyddiadau i'w cefnogi, fel y nodir yn yr adran nesaf.



Hanner Marathon Caerdydd




Cystadlaethau Marchogaeth Rhyngwladol yng Nglanusk, Crucywel

# 5. Sut y byddwn yn penderfynu pa ddigwyddiadau mawr i'w cefnogi?

5.1 Cam cyntaf y broses benderfynu fydd asesu pob digwyddiad yn ôl y meini prawf sy'n cyd-fynd â *Cymru'n Un*. Bydd meini prawf priodol yn cael eu dewis o'r tabl ar y dudalen nesaf er mwyn eu defnyddio yn ystod y trafodaethau cynnar â pherchnogion digwyddiadau er mwyn ystyried yr achos strategol ar gyfer buddsoddi. Bydd hyn yn sicrhau bod effaith a dylanwad y digwyddiad yn cael eu hystyried yn llawn ac yn rhan ganolog o'r broses gynllunio o'r cychwyn cyntaf.

5.2 Bydd y fframwaith asesu hwn yn fwy na dull o asesu ceisiadau am arian. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn modd rhagweithiol i wneud gwaith ymchwil a nodi digwyddiadau y gall Cymru eu datblygu, eu denu neu gystadlu amdanynt. Bydd yn ein galluogi i asesu gwerth digwyddiadau mewn modd gwrthrychol a theg. Nid rhestr wirio mo'r fframwaith – ni fydd rhaid i ddigwyddiadau sy'n ceisio cefnogaeth gan yr Uned Digwyddiadau Mawr 'dicio pob blwch'. Ac ystyried y nodweddion gwahanol sy'n diffinio'r gwahanol gategorïau o ddigwyddiadau, ac amrywiaeth yr effaith a gânt o ran sicrhau canlyniadau sy'n cyd-fynd â *Chymru'n Un*, byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu 'portffolio cytbwys' a allai olygu defnyddio gwahanol setiau o feini prawf ar gyfer y gwahanol gategorïau o ddigwyddiadau.

5.3 Er enghraifft, bydd disgwyl i Ddigwyddiadau Mawr sicrhau manteision sylweddol i economi Cymru a chodi proffil Cymru yn y byd. Ar y llaw arall bydd disgwyl i Ddigwyddiadau Twf sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â chysylltu â'r gymuned, datblygu sgiliau a gwella mynediad a chyfranogiad.

5.4 Er y bydd disgwyl i'r portffolio o ddigwyddiadau a gefnogir ddod â manteision economaidd cadarnhaol i Gymru, byddwn yn ceisio cael cydbwysedd priodol o ran buddsoddi mewn digwyddiadau sy'n cynnig manteision economaidd sylweddol a'r rheini a fydd yn dod â manteision cymdeithasol-ddiwylliannol ehangach. Bydd cyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol yn rhoi'r hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i allu ymateb yn effeithiol i'r gwahanol fathau o ddigwyddiadau mewn gwahanol leoliadau ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

5.5 Byddwn yn cyhoeddi canllawiau manylach ar gyfer perchnogion a threfnwyr digwyddiadau, gan nodi'n glir ac yn gryno sut y byddwn yn asesu ceisiadau am gyllid a sut y byddwn yn gwneud penderfyniadau.

5.6 Rhaid i ddigwyddiadau fod yn fforddiadwy, gan ein bod bron yn sicr y bydd y galw am gymorth yn fwy na'r ddarpariaeth, ac na fydd modd rhoi cymorth ariannol i'r holl ddigwyddiadau.

5.7 Mae'n briodol bod y Strategaeth Digwyddiadau Mawr hon ar gyfer Cymru yn cydnabod rôl bwysig ein Prifddinas, Caerdydd, o ran cryfhau enw da Cymru fel lleoliad rhyngwladol ar gyfer digwyddiadau mawr. Rhaid inni gydnabod hefyd mai Caerdydd fydd dewis cyntaf llawer o berchnogion digwyddiadau. Bydd buddsoddi'n briodol mewn digwyddiadau sy'n tynnu sylw at Gaerdydd fel prifddinas eithriadol yn elfen bwysig a fydd yn parhau. Fe

fyddwn, er hynny, yn hybu’r syniad o rannu cyfleoedd yn deg ar draws Cymru. Bydd cryfder yr ymrwymiad gan bartneriaid lleol a rhanbarthol ledled y wlad yn ffactor allweddol yn ein holl benderfyniadau buddsoddi.




Pencampwriaeth Hwylio Ryngwladol ym Mhwllheli, Gwynedd / © Paul Todd www.outsideimages.com

| Maes Polisi Cymru'n Un | Meini Prawf Asesu |
|---|---|
| Dyfodol Iach | • Cefnogi amgylcheddau cymdeithasol a ffisegol sy'n hybu iechyd a lles |
| Cymdeithas Ffyniannus | • Cefnogi swyddi hirdymor o ansawdd uchel<br>• Annog mentrau newydd a thwf busnes<br>• Hybu twristiaeth mewn marchnadoedd allweddol<br>• Cefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig |
| Cymunedau Byw | • Cefnogi gweithredu gwirfoddol a gwirfoddoli'n lleol<br>• Hybu a chefnogi busnesau cymdeithasol neu gymunedol |
| Dysgu i Fyw | • Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol i gefnogi economi fodern, greadigol |
| Cymdeithas Deg a Chyfiawn | • Cefnogi rhaglenni allgymorth sydd wedi'u targedu at grwpiau lleiafrifol a rhai anodd eu cyrraedd |
| Amgylchedd Cynaliadwy | • Codi ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd<br>• Cyfrannu at leihau ôl troed ecolegol<br>• Cwtogi ar wastraff drwy ei leihau a'i ailddefnyddio a thrwy ddarparu cyfleusterau ailgylchu ar safleoedd lle cynhelir digwyddiadau<br>• Cael effaith niwtral neu gadarnhaol ar yr amgylchedd<br>• Dangos cynnydd at gyrraedd safon BS8901: Systemau Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Digwyddiadau |
| Diwylliant Cyfoethog ac Amrywiol | • Hyrwyddo, cefnogi a defnyddio'r Gymraeg<br>• Cynyddu mynediad at y celfyddydau, chwaraeon neu weithgarwch corfforol ac annog pobl i gymryd rhan mewn ffordd gynaliadwy<br>• Cefnogi datblygiad sector celfyddydol o safon uchel yng Nghymru<br>• Rhoi cyfleoedd proffil-uchel i artistiaid ac athletwyr berfformio a chystadlu yn eu gwlad eu hunain<br>• Hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid o Gymru yn y DU a gweddill y byd<br>• Cefnogi llwyddiant Cymru ym myd chwaraeon ar lwyfan y byd<br>• Hyrwyddo brand Cymru mewn marchnadoedd tramor allweddol<br>• Rhoi profiadau o safon ryngwladol i gynulleidfaoedd yng Nghymru |

# 6. Gweithio gyda'n gilydd dros Gymru



6.1 Mae bod yn genedl 'lai' o ran poblogaeth yn gallu bod yn fanteisiol ar lawer cyfrif. Un fantais amlwg yw ein gallu i symud yn sydyn ac yn effeithiol i sefydlu partneriaethau 'Tîm Cymru' – a'r Llywodraeth naill ai'n eu harwain neu'n eu cefnogi'n agos. Mae partneriaethau hyblyg, cydlynol a phendant yn hanfodol er mwyn cynnal digwyddiadau mawr ac maent yn ddeniadol i berchnogion digwyddiadau pan fyddant yn chwilio am leoliad. Mae llwyddiant amlwg partneriaethau 'Tîm Cymru' wrth gynnal digwyddiadau fel Gêm Brawf y Lludw 2009 a Chwpan Ryder 2010 yn fodelau ar gyfer creu dull mwy systematig a strategol o weithio mewn partneriaeth yn y blynyddoedd nesaf.

6.2 Mae ymdeimlad clir o undod o ran diben a strwythur yn hanfodol er mwyn gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus. O reidrwydd, mae ystod amrywiol a chymhleth o gyrff yn ymwneud â chefnogi a chynnal digwyddiadau yng Nghymru. Mae'n bwysig fod yr holl gyrff sy'n rhan o'r diwydiant digwyddiadau yng Nghymru yn rhannu'r un weledigaeth ac yn meddu ar yr un teimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb mewn perthynas â gwireddu strategaeth genedlaethol sy'n gweithio dros bobl a chymunedau ledled Cymru.

6.3 Bydd datblygu cysylltiadau a phartneriaethau cryf y tu allan i Gymru hefyd yn hanfodol er mwyn gallu gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus. Rhaid i'r partneriaid hynny fod yn hyderus bod ymdrechion 'Tîm Cymru', gydag arweiniad gan y strategaeth hon a chefnogaeth gan y Llywodraeth, yn cynnig cyfle eithriadol bob amser.

6.4 Prif rôl yr Uned Digwyddiadau Mawr fydd arwain a chydlynu'r gwaith o weithredu'r strategaeth hon. Ar y cyfan, ni fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnal digwyddiadau mawr, dim ond drwy gefnogi ac ychwanegu gwerth at y sefydliadau sy'n gysylltiedig â hwy. Prif swyddogaethau'r Uned yw:

- cydlynu gweithgareddau'n ymwneud â digwyddiadau mawr ledled Cymru – o nodi cyfleoedd hyd at gynnal y digwyddiad, a'i werthuso wedyn. Bydd yn bwynt cyswllt ar gyfer perchnogion digwyddiadau sy'n awyddus i gynnal digwyddiadau mawr yng Nghymru;
- nodi digwyddiadau lleol a rhanbarthol sydd â'r potensial i dyfu;
- nodi digwyddiadau rhyngwladol mawr y gall Cymru wneud cais amdanynt neu eu denu;
- dyrannu cyllid mewn modd agored a thryloyw drwy asesu a gwerthuso ar sail meini prawf;
- harneisio'r arbenigedd sydd ar gael yng Nghymru er mwyn datblygu dull mwy proffesiynol a systematig o gynllunio, rheoli a chynnal digwyddiadau, gan helpu i greu'r amgylchiadau addas ar gyfer rhannu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- cefnogi datblygu arbenigedd o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ym maes digwyddiadau mawr;
- manteisio ar gyfleoedd am drosoledd (leverage) sy'n rhoi'r budd gorau posibl i Gymru;
- datblygu cysylltiadau effeithiol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol gyda pherchnogion digwyddiadau mawr, dylanwadwyr a rhanddeiliaid;

- rhoi cyngor ac arweiniad strategol i berchnogion a threfnwyr digwyddiadau;
- hyrwyddo pwysigrwydd digwyddiadau mawr a chapasiti Cymru ymhlith cynulleidfaoedd mewnol ac allanol, gan gynnwys gwneud gwaith ymchwil a rhannu arfer da rhyngwladol;
- sicrhau bod cyllid cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau yn amodol ar ymrwymiadau gan drefnwyr digwyddiadau mewn meysydd penodol, megis defnyddio, integreiddio a chodi proffil yr iaith Gymraeg a rheoli digwyddiadau mewn modd cynaliadwy;
- adolygu'n rheolaidd y cyd-destun strategol ar gyfer cefnogi digwyddiadau mawr a buddsoddi ynddynt.

6.5 Wrth ymgymryd â'r swyddogaethau hyn, bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn mynd ati i sefydlu partneriaethau cryf ac effeithiol ar draws ffiniau daearyddol, sefydliadol a sectoraidd. Byddwn yn gweithio'n agos ag amrywiaeth o bartneriaid a grwpiau rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

6.6 Mae llywodraeth leol ac awdurdodau cynllunio yn bartneriaid strategol allweddol. Gan yr awdurdodau lleol y mae llawer o'r profiad o reoli digwyddiadau yng Nghymru ar hyn o bryd, a hwy yw perchnogion neu reolwyr llawer o'r lleoliadau sy'n addas ar gyfer digwyddiadau mawr. Mae cynnal digwyddiad mawr mewn ardal yn gallu ennyn a chryfhau balchder bro, a gall awdurdodau lleol roi arweiniad drwy feithrin cysylltiadau cadarnhaol â'u cymunedau i sicrhau'r gefnogaeth leol a rhanbarthol sy'n hanfodol ar gyfer llwyddiant digwyddiad. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau allweddol i gefnogi digwyddiadau, yn arbennig ym maes iechyd a diogelwch, trafnidiaeth a rheoli gwastraff. Wrth roi'r strategaeth hon ar waith, rydym yn awyddus i archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn dull consortiwm wrth gydweithio â llywodraeth leol lle bynnag y bo hynny'n addas.

6.7 Ymhlith y partneriaid allweddol eraill bydd:

- Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Coedwigaeth Cymru
- Croeso Cymru a Phartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Darparwyr trafnidiaeth a llety
- Ffederasiynau chwaraeon a chyrff llywodraethu yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol
- Fforymau economaidd Cymru
- Perchnogion a gweithredwyr lleoliadau masnachol
- Perchnogion a threfnwyr digwyddiadau masnachol (ac eraill lle bo'n addas) yng Nghymru, ledled y DU ac yn rhyngwladol
- Sefydliadau proffesiynol, gwirfoddol a rhai'n ymwneud â chelfyddydau cymunedol

- UK Sport
- Yr Heddlu a'r gwasanaethau brys

6.8 Rydym wedi cydweithio'n agos â nifer o'r sefydliadau a'r grwpiau hyn wrth ddatblygu'r strategaeth. Mae'n hollbwysig yn awr eu bod yn cymryd y strategaeth hon i ystyriaeth wrth fynd ati i lunio eu polisïau strategol ac ariannol ar gyfer digwyddiadau mawr.

6.9 Pan fo denu digwyddiad i Gymru yn golygu proses ymgeisio, bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn arwain ac yn cefnogi partneriaid (er enghraifft, awdurdodau lleol a chyrff rheoli chwaraeon) wrth wneud cais am ddigwyddiadau newydd. Bydd hyn yn golygu nodi'r digwyddiadau rhyngwladol mawr y dylai Cymru gystadlu amdanynt, creu'r partneriaethau mwyaf addas er mwyn cyflwyno cais llwyddiannus; a sefydlu perthynas waith gref â pherchnogion digwyddiadau er mwyn denu'r digwyddiadau hynny i Gymru. Gan amlaf, bydd yr Uned yn cefnogi partneriaid yn hytrach nag yn arwain y cais. Rôl yr Uned o safbwynt ceisiadau posibl ar gyfer Mega-ddigwyddiadau



Penwythnos Mawr BBC Radio One ym Mangor, Gwynedd

(fel y'u diffinnir yn Adran 2 y ddogfen hon) fydd rheoli'r gwaith cychwynnol, gan gynnwys paratoi cyngor i Weinidogion ar faterion yn ymwneud â dichonolrwydd, dadansoddi cost/budd a chynnal asesiad ymlaen llaw o'r effaith bellgyrhaeddol.

# 7. Sut y byddwn yn mesur llwyddiant?



Gŵyl y Dyn Gwyrdd yng Nghrucywel, Powys

7.1 Rhaid monitro a gwerthuso buddsoddiad yr Uned Digwyddiadau Mawr yn ofalus, nid yn unig er mwyn mesur effaith y digwyddiadau eu hunain, ond hefyd er mwyn barnu pa mor effeithiol fu ein cefnogaeth o ran sicrhau'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â *Cymru'n Un*.

7.2 Mae amrywiaeth y diwydiant digwyddiadau o ran ei natur, ei gynnwys a'i sgôp yn galw am fframwaith ar gyfer monitro a gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu mewn modd cyson a pherthnasol a bod lefel yr ymchwil a'r gwerthuso yn addas ar gyfer maint digwyddiadau unigol yn y portffolio.

7.3 Bydd y fframwaith yn cynnwys cyfres o ddulliau ymchwil a gwerthuso er mwyn asesu'r effeithiau economaidd, cymdeithasol-ddiwylliannol, amgylcheddol a chyfryngol, a hynny mewn modd holistaidd.

7.4 Yn achos digwyddiadau mawr iawn, efallai y bydd gofyn comisiynu astudiaethau ymchwil a gwerthuso penodol, ond mae'n annhebygol y bydd angen gwaith mor fanwl ar gyfer digwyddiadau llai. Serch hynny, bydd yr egwyddorion a'r methodolegau sylfaenol a ddefnyddir wrth ddatblygu'r fframwaith yn cael eu cymhwyso, cyn belled ag y bo modd, ar draws yr holl ddigwyddiadau a geir yn y portffolio, ond gan gadw golwg ar flaenoriaethau cenedlaethol yr un pryd.

7.5 Bydd hefyd yn bwysig datblygu'r fframwaith hwn fel adnodd ar gyfer perchnogion, trefnwyr a noddwyr digwyddiadau. Bydd hynny'n rhoi canllawiau ymarferol iddynt ynglŷn â'r data allweddol y mae angen iddynt eu darparu a, lle bo gofyn, ar y dulliau mwyaf effeithiol o gasglu data.

7.6 Mae fframweithiau gweddol debyg yn cael eu datblygu mewn rhannau eraill o'r DU[4]. Er enghraifft, y pecyn eventIMPACTS a ddatblygwyd gan UK Sport ac ystod o bartneriaid sy'n ymwneud â'r diwydiant digwyddiadau ledled y DU Byddwn yn cydweithio â'r sefydliadau perthnasol i sicrhau bod y dulliau a ddatblygir mor gymharus â phosibl ac i sefydlu, lle bynnag y bo modd, ddulliau a methodolegau cyffredin. Trwy hynny, mae'n debygol y ceir synergedd o ran diffiniadau, dulliau a chostau cyffredin. Mae'n debyg y bydd y methodolegau a ddatblygir yn cynnwys casglu data sylfaenol a thechnegau modelu ar gyfer digwyddiadau mwy.

7.7 Yn y tabl ar y dudalen nesaf ceir crynodeb o'r dangosyddion perfformiad lefel uchel a fydd yn cael eu defnyddio wrth fesur llwyddiant y strategaeth hon.

7.8 Bydd y gyfres hon o ddangosyddion perfformiad yn cael ei datblygu a'i mireinio ymhellach yn y dyfodol.

7.9 Caiff y strategaeth hon ei hadolygu yn 2015 a phob pum mlynedd ar ôl hynny.

---

4 www.eventimpacts.com



| Maes Effaith | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
|---|---|
| Economaidd | • Nifer y swyddi newydd, cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu yng Nghymru<br>• Nifer yr ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, a'r nifer oddi allan i'r tymor prysur<br>• Y cyfraniad ychwanegol net i economi Cymru<br>• Trosoledd buddsoddiad arall o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus<br>• Defnydd o gynnyrch a gwasanaethau lleol (Cymreig) |
| Cymdeithasol-ddiwylliannol | • Nifer ac amrywiaeth y mynychwyr<br>• Nifer ac amrywiaeth y rhai sy'n cymryd rhan<br>• Nifer ac amrywiaeth y gwirfoddolwyr o Gymru sy'n cael eu recriwtio/hyfforddi/defnyddio<br>• Darparu gweithgareddau craidd yn y Gymraeg. Perfformiadau Cymraeg. Defnydd o ddeunyddiau hyrwyddo, tocynnau, arwyddion dwyieithog ac ati<br>• Rhaglenni allgymorth a digwyddiadau cysylltiedig sy'n annog cyfranogaeth dorfol |
| Amgylcheddol | • Allyriadau carbon deuocsid<br>• Maint y gwastraff a gynhyrchir, a faint a ailgylchir<br>• Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol<br>• Cael achrediad dan BS 8901<br>• Asesu'r effaith amgylcheddol |
| Y Cyfryngau | • Sylw ar deledu cenedlaethol a rhyngwladol<br>• Sylw mewn cyfryngau print cenedlaethol a rhyngwladol<br>• Sylw ar y rhyngrwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol |




Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

# 8. Rhoi’r strategaeth ar waith




8.1 Mae adrannau blaenorol y strategaeth hon yn rhoi canllaw ymarferol ar gyfer y diwydiant digwyddiadau yng Nghymru. Mae'r adran hon yn sôn am yr hyn y bydd yr Uned Digwyddiadau Mawr yn ei wneud er mwyn cryfhau safle Cymru fel cyrchfan boblogaidd ar gyfer digwyddiadau mawr o safon ryngwladol. Trwy weithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r diwydiant digwyddiadau, bydd yr Uned yn:

- Datblygu a lansio delwedd weithredol a chynllun cyfathrebu 'Digwyddiadau Cymru' a fydd yn cynnwys:
  - gwefan Digwyddiadau Mawr
  - calendr cenedlaethol o ddigwyddiadau mawr
  - cronfa ddata o ganolfannau a lleoliadau, a pherchnogion a threfnwyr digwyddiadau
  - cronfa ddata o ymchwil yn ymwneud ag effaith digwyddiadau mawr
  - pecyn ar-lein ar gyfer hunanasesu a gwerthuso digwyddiadau yn y dyfodol
- Cydlynu cynllun gweithredu sgiliau, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol, y sector addysg a darparwyr hyfforddiant i gryfhau'r gallu yng Nghymru i reoli digwyddiadau yn broffesiynol, o lefel hyfforddeion i raddedigion.
- Sefydlu Cronfa Dwf gyda chyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer creu neu feithrin digwyddiadau y tu allan i Gaerdydd.
- Archwilio'r potensial i ddatblygu'r cysyniad o docyn 'Gwyrdd' ar gyfer digwyddiadau, gan adeiladu ar ddull gweithredu arloesol y fenter 'Cyswllt Caerdydd.
- Mewn partneriaeth â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, darparu gwasanaeth ymgynghori a fydd yn cynnig cyngor ymarferol yn rhad ac am ddim i ddigwyddiadau er mwyn codi proffil y Gymraeg a chynyddu'r defnydd a wneir ohoni mewn digwyddiadau mawr a digwyddiadau unigryw a gefnogir.
- Sefydlu Cynhadledd Ddigwyddiadau Rhyngwladol a fydd yn cael ei chynnal bob dwy flynedd i hyrwyddo a marchnata Cymru fel cyrchfan ar gyfer digwyddiadau mawr.
- Cefnogi digwyddiadau sy'n meithrin cysylltiadau neu ddatblygiadau yn sgil y cyfleoedd a ddaw yn sgil Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, a'r safleoedd hyfforddi a sefydlir yng Nghymru ar gyfer timau rhyngwladol cyn y gemau.

8.2 O ystyried yr her ariannol eithriadol a wynebwn dros y blynyddoedd nesaf a'r angen i feithrin gallu Cymru i reoli a chynhyrchu digwyddiadau, dyma fydd ffocws ein buddsoddiad yn ystod pum mlynedd gyntaf oes y strategaeth hon:

- cefnogi rhaglen o Ddigwyddiadau Twf sy'n creu amgylchedd ar gyfer datblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol a fydd yn sylfaen ar gyfer meithrin diwydiant digwyddiadau cryf a chynaliadwy yng Nghymru;
- gweithio'n strategol gyda pherchnogion a threfnwyr ein Digwyddiadau Unigryw i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o sicrhau eu bod yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru a'r tu hwnt;
- denu digwyddiadau rhyngwladol mawr a fydd yn gwella amlygrwydd ac enw da Cymru.




Rownd Derfynol Cwpan Heineken, Caerdydd